

Sunday 14th December 2025
+ The Third Sunday of Advent

The collect of the day

O Lord Jesus Christ, at your first coming you sent your messenger to prepare your way before you: grant that the ministers and stewards of your mysteries may likewise so prepare and make ready your way by turning the hearts of the disobedient to the wisdom of the just, that at your second coming to judge the world we may be found an acceptable people in your sight; for you are alive and reign with the Father in the unity of the Holy Spirit, one God, now and for ever. AMEN

A reading from Isaiah
(35.1-10)

The wilderness and the dry land shall be glad, the desert shall rejoice and blossom; like the crocus it shall blossom abundantly, and rejoice with joy and singing. The glory of Lebanon shall be given to it, the majesty of Carmel and Sharon. They shall see the glory of the Lord, the majesty of our God.

Strengthen the weak hands, and make firm the feeble knees. Say to those who are of a fearful heart, 'Be strong, do not fear! Here is your God. He will come with vengeance, with terrible recompense. He will come and save you.'

Then the eyes of the blind shall be opened, and the ears of the deaf unstopped; then the lame shall leap

like a deer, and the tongue of the speechless sing for joy.

For waters shall break forth in the wilderness, and streams in the desert; the burning sand shall become a pool, and the thirsty ground springs of water; the haunt of jackals shall become a swamp, the grass shall become reeds and rushes.

A highway shall be there, and it shall be called the Holy Way; the unclean shall not travel on it, but it shall be for God's people; no traveller, not even fools, shall go astray. No lion shall be there, nor shall any ravenous beast come up on it; they shall not be found there, but the redeemed shall walk there.

And the ransomed of the Lord shall return, and come to Zion with singing; everlasting joy shall be upon their heads; they shall obtain joy and gladness, and sorrow and sighing shall flee away.

The Psalm
(146.4-10)

Happy are those who have the God of Jacob / for their / help: whose hope is / in the / Lord their / God; Who made heaven and earth, the sea and / all that is / in them: who / keeps his / promise for / ever;

Who gives justice to those that / suffer / wrong: and / bread to / those who / hunger. The Lord looses / those that are / bound: the Lord opens the / eyes / of the / blind;

The Lord lifts up those who / are bowed / down: the / Lord / loves the / righteous; The Lord watches over the stranger in the land; he upholds the / orphan and / widow: but the way of the wicked / he turns / upside / down. The Lord shall / reign for / ever: your God, O Zion, throughout all gene/rations. / Alle/luia.

A reading from James
(5.7-10)

Be patient, beloved, until the coming of the Lord. The farmer waits for the precious crop from the earth, being patient with it until it receives the early and the late rains. You also must be patient. Strengthen your hearts, for the coming of the Lord is near. Beloved, do not grumble against one another, so that you may not be judged. See, the Judge is standing at the doors! As an example of suffering and patience, beloved, take the prophets who spoke in the name of the Lord.

The reading from the Gospel
according to Saint Matthew
(11.2-11)

When John heard in prison what the Messiah was doing, he sent word by his disciples and said to Jesus, 'Are you the one who is to come, or are we to wait for another?'

Jesus answered them, 'Go and tell John what you hear and see: the blind receive their sight, the lame walk, the lepers are cleansed, the deaf hear, the dead are raised, and the poor have good news brought to

them. And blessed is anyone who takes no offence at me.'

As they went away, Jesus began to speak to the crowds about John: 'What did you go out into the wilderness to look at? A reed shaken by the wind? What then did you go out to see? Someone dressed in soft robes? Look, those who wear soft robes are in royal palaces.

'What then did you go out to see? A prophet? Yes, I tell you, and more than a prophet. This is the one about whom it is written, "See, I am sending my messenger ahead of you, who will prepare your way before you."

'Truly I tell you, among those born of women no one has arisen greater than John the Baptist; yet the least in the kingdom of heaven is greater than he.'

The collect after communion

God of mercy and power, your Son rules over all, grant us so to live in obedience to your holy will, that at his appearing we may be raised to eternal life; through Jesus Christ our Lord. AMEN



Dydd Sul 14^{eg} Rhagfyr 2025
+ Trydedd Sul yr Adfent

Colect y dydd

O Arglwydd Iesu Grist, a anfonaist dy genhadwr ar dy ddyfodiad cyntaf i baratoi dy ffordd o'th flaen, pâr i weinidogion a goruchwylwyr dy ddirgeleddau yn yr un modd baratoi ac arloesi dy ffordd trwy droi calonau'r anufudd i ddoethineb y cyfiawn, fel, ar dy ail ddyfodiad i farnu'r byd, y ceir ni'n bobl gymeradwy yn dy olwg di; oherwydd yr wyt yn fyw ac yn teyrnasu gyda'r Tad a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth. AMEN

Darllenriad o Eseia

(35.1-10)

Llawenyched yr anial a'r sychdir, gorfoledded y diffeithwch, a blodeuo. Blodeued fel maes o saffrwn, a gorfoleddu â llawenydd a chân. Rhodder gogoniant Lebanon iddo, mawrhydi Carmel a Saron; cânt weld gogoniant yr Arglwydd, a mawrhydi ein Duw ni.

Cadarnhewch y dwylo llesg, cryfhewch y gliniau gwan; dywedwch wrth y pryderus, "Ymgryfhewch, nac ofnwch. Wele, fe ddisgyn ar Edom, ar y bobl a ddedfryda i farn."

Yna fe agorir llygaid y deillion a chlustiau'r byddariaid; fe lama'r cloff fel hydd, fe gân tafod y mudan; tyr dyfroedd allan yn yr anialwch, ac afonydd yn y diffeithwch; bydd y

crastir yn llyn, a'r tir sych yn ffynhonnau byw; yn y tir garw, lle cyrcha'r siacal, bydd gweirglodd o gorsennau a brwyn.

Yno bydd priffordd a ffordd, a gelwir hi yn ffordd sanctaidd; ni bydd yr halogedig yn mynd ar hyd-ddi; bydd yn ffordd i'r pererin, ac nid i'r cyfeiliorn, i grwydro ar hyd-ddi. Ni ddaw llew yno, ni ddring bwystfil rheibus iddi — ni cheir y rheini yno. Ond y rhai a ryddhawyd fydd yn rhodio arni, a gwaredigion yr Arglwydd fydd yn dychwelyd. Dônt i Seion dan ganu, bob un gyda llawenydd tragwyddol; hebryngir hwy gan lawenydd a gorfoledd, a bydd gofid a griddfan yn ffoi ymaith.

Y Salm

(146.5-10)

Gwyn ei fyd y sawl y mae Duw Jacob yn ei gynorthwyo, ac y mae ei obaith yn yr Arglwydd ei Dduw, creawdwr nefoedd a daear a'r môr, a'r cyfan sydd ynddynt. Y mae ef yn cadw'n ffyddlon hyd byth,

ac yn gwneud barn â'r gorthrymedig; y mae'n rhoi bara i'r newynog. Y mae'r Arglwydd yn rhyddhau carcharorion; y mae'r Arglwydd yn rhoi golwg i'r deillion, ac yn codi pawb sydd wedi eu darostwng; y mae'r Arglwydd yn caru'r rhai cyfiawn.

Y mae'r Arglwydd yn gwyllo dros y dieithriad, ac yn cynnal y weddw a'r amddifad; y mae'n difetha ffordd y drygionus. Bydd yr Arglwydd yn teyrnasu hyd byth, a'th Dduw di, O

Seion, dros y cenedlaethau. Molwch yr Arglwydd.

Darllenriad o Iago

(5.7-10)

Byddwch yn amyneddgar, gyfeillion, hyd ddyfodiad yr Arglwydd. Gwelwch fel y mae'r ffermwr yn aros am gynnyrch gwerthfawr y ddaear, yn fawr ei amynedd amdano nes i'r ddaear dderbyn y glaw cynnar a diweddar.

Byddwch chwithau hefyd yn amyneddgar, a'ch cadw eich hunain yn gadarn, oherwydd y mae dyfodiad yr Arglwydd wedi dod yn agos.

Peidiwch ag achwyn ar eich gilydd, fy nghyfeillion, rhag ichwi gael eich barnu. Gwelwch, y mae'r Barnwr yn sefyll wrth y drws. Ystyriwch, gyfeillion, fel esiampl o rai'n dioddef yn amyneddgar, y proffwydi a lefarodd yn enw'r Arglwydd.

Gwrandewch Efengyl Crist yn ôl Sant Mathew

(11.2-11)

Pan glywodd Ioan yn y carchar am weithredoedd Crist, anfonodd trwy ei ddisgyblion a gofyn iddo, "Ai ti yw'r hwn sydd i ddod, ai am rywun arall yr ydym i ddisgwyl?"

Ac atebodd Iesu hwy, "Ewch a dywedwch wrth Ioan yr hyn yr ydych yn ei glywed ac yn ei weld. Y mae'r deillion yn cael eu golwg yn ôl, y cloffion yn cerdded, y gwahangleifion yn cael eu glanhau a'r byddariaid yn clywed, y meirw yn

codi, y tlodion yn cael clywed y newydd da. Gwyn ei fyd y sawl na fydd yn cwmpo o'm hachos i."

Wrth i ddisgyblion Ioan fynd ymaith, dechreuodd Iesu sôn am Ioan wrth y tyrfaeodd. "Beth yr aethoch allan i'r anialwch i edrych arno? Ai brwynen yn siglo yn y gwynt? Beth yr aethoch allan i'w weld? Ai un wedi ei wisgo mewn dillad esmwyth? Yn nhai brenhinoedd y mae'r rhai sy'n gwisgo dillad esmwyth.

"Beth yr aethoch allan i'w weld? Ai proffwyd? Ie, meddaf wrthyh, a mwy na phroffwyd. Dyma'r un y mae'n ysgrifenedig amdano: 'Wele fi'n anfon fy nghennad o'th flaen, i baratoi'r ffordd ar dy gyfer.'

"Yn wir, 'rwy'n dweud wrthyh, ni chododd ymhlith meibion gwragedd neb mwy na Ioan Fedyddiwr; ac eto y mae'r lleiaf yn nheyrnas nefoedd yn fwy nag ef."

Defynddir gweddi ôl-ynghyd

Dduw trugaredd a nerth, y mae dy Fab yn teyrnasu dros bawb; caniatâ i ni fyw mewn ufudd-dod i'th ewyllys sanctaidd, fel, pan ddaw atom, y cawn ein cyfodi i'r bywyd tragwyddol; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. AMEN



Testun allan o Gair yr Arglwydd 2011 – yr Eglwys yng Nghymru. Hawlfraint Cyhoeddiadau'r Eglwys yng Nghymru 2011. Colectau a Gweddïau Ôl-Gymun o'r llyfr Y Calendr Newydd a'r Colectau Hawlfraint Corff Cymrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru 2003 ISBN – 1853115495. Dyfyniadau a Salmu trwy ganiatâd o'r Beibl Cymraeg Newydd Diwygiedig 2004 Cymdeithas (Brydeinig a Thramor) y Beibl. Cedwir pob hawl.